# County Council (C)

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor - Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Mercher, 21 Hydref 2015**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Powys

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

15/10/2015

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC77- 2015 |
|---|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB | CC78- 2015 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau sy'n ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 3. | COFNODION | CC79- 2015 |
|---|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf a 18 Medi 2015 fel cofnodion cywir.
(Tudalennau 5 - 24)

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD | CC80- 2015 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC81- 2015 |
|---|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF Y PRIF WEITHREDWR | CC82- 2015 |
|---|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.
.

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **TROSGLWYDDIADAU SYDD ANGEN EU CYMERADWYO GAN Y CYNGOR** | **CC83- 2015** |

Ystyried cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y gyllideb cyfalaf.
(Tudalennau 25 - 26)

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **GWERTHUSIAD A CHRYNODEB PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNLLUN POWYS YN UN DRAFFT 2014 - 15** | **CC84- 2015** |

Ystyried adroddiad blynyddol Cynllun Powys yn Un – gwerthusiad drafft.
(Tudalennau 27 - 124)

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL POWYS - CYTUNDEB CYFLWYNO DIWYGIEDIG** | **CC85- 2015** |

Ystyried adroddiad ar Gytundeb Cyflwyno Diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol Powys
(Tudalennau 125 - 198)

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003** | **CC86- 2015** |

Ystyried argymhellion y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 ar gyfer:

10.1. **Adolygu Polisi Trwyddedu Powys**

(Tudalennau 199 - 220)

10.2. **Datganiad Egwyddorion Drafft, y Ddeddf Hapchwarae 2005**

(Tudalennau 221 - 244)

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **PROSES AR GYFER PENODI AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU** | **CC87- 2015** |

Derbyn ac ystyried adroddiad y Cyfreithiwr i'r Cyngor a'r Swyddog Monitro.
(Tudalennau 245 - 252)

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **RHYBUDD O GYNNIG - CYLLID A CHYMORTH AR GYFER CFFI** | **CC88- 2015** |

Ffermwyr ifanc yw dyfodol ein cymunedau ac rydym yn credu y dylent gael yr holl gefnogaeth angenrheidiol i'w helpu i dyfu.

Y Mudiad Ffermwyr Ifanc (CFfI) yw'r sefydliad ieuenctid gwledig mwyaf yng Nghymru. Ar draws Cymru, mae'r sefydliad hwn yn garreg gamu mawr i lawer o bobl

ifanc i fynd i mewn i ffermio ac yn gyfle i bobl ifanc ddysgu a datblygu sgiliau pwysig, ennill hyfforddiant amhrisiadwy a chymryd rhan yn eu cymunedau lleol.

Mae diogelu cyllid a chefnogaeth yn hanfodol i'r clybiau hyn gan eu bod yn caniatáu i glybiau cynnal rhaglenni addysgiadol ar gyfer pobl ifanc sy'n byw ym Mhowys. Mae Grŵp Ceidwadwyr Cymru, Cyngor Sir Powys wedi ymrwymo i ddiogelu cyllid a chefnogaeth i Glybiau Ffermwyr Ifanc ym Mhowys.

Felly, rydym yn cynnig y dylid cynnal cyllid a chymorth ar gyfer holl Glybiau Ffermwyr Ifanc ym Mhowys ar y lefel bresennol yn y dyfodol.

Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Sir Gary Price
Eiliwyd: Cynghorydd Sir Aled Davies

| 13. | CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD | CC89- 2015 |
|---|---|---|

13.1. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Addysg gan y Cynghorydd Sir John Morris**

Ym mis Ionawr a mis Mawrth eleni fe'n hysbyswyd bod y cabinet yn cyflwyno polisi moderneiddio ysgol uwchradd ar gyfer Powys a fyddai'n mynd i'r afael â'r gorwariant mewn cyllidebau dirprwyedig ysgolion yn y dyfodol agos ac yn cynnig ystod dda o gyfleoedd addysgol i'n holl ddisgyblion oedran ysgol uwchradd.

Yn dilyn y ddadl ddiweddar yn y cabinet ymddengys erbyn hyn y bu newidiadau sylfaenol i'r ymagwedd polisi hwn a allai peryglu cyfeiriad cyfan holl ysgolion uwchradd Powys yn y dyfodol.

Mae'n ymddangos yn awr nad oes unrhyw fath o gyfeiriad, amserlen neu gostau penodol a dim polisi moderneiddio uwchradd adnabyddadwy yn bodoli ym Mhowys. Mae hyn wedi achosi cryn dipyn o bryder i ysgolion a rhieni fel ei gilydd.

A allwch chi roi gwybod i ni am statws ac amserlen bresennol y polisi moderneiddio ysgolion uwchradd gan gyfeirio'n arbennig at sut yr ydych yn bwriadu ariannu'r model presennol yn ystod y cyfnod hwn a sut yr ydych yn bwriadu diogelu a gwella lefelau perfformiad ein disgyblion ysgolion uwchradd o ystyried y toriadau difrifol arfaethedig i gyllidebau ysgolion?

13.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

A all yr Aelod Cabinet rhoi datganiad ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer Marchnad Aberhonddu?

13.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Wasanaethau Plant gan y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Sut mae'r Cyngor yn gweithio i ymdrin â thlodi plant yn Ward Sant Ioan?

13.4. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio dros Addysg gan y Cynghorydd Sir David Meredith**

A all yr Aelod Portffolio Addysg rhoi gwybod i ni beth oedd y cynsail a ddefnyddiwyd ganddo a arweiniodd iddo roi cludiant am ddim i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg o Aberhonddu i Lanfair-ym-Muallt?

(Tudalennau 253 - 254)

13.5. **Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gary Price**

Gyda Chyngor Sir Powys yn gwneud cymaint o doriadau i nifer y staff a'r disgwyliad iddynt ymgymryd â mwy o waith, a all yr Arweinydd cyfiawnhau pam ei fod yn credu ei fod yn dderbyniol i gynyddu ei Gabinet o 9 i 10 o aelodau sy'n golygu cynnydd yn y taliadau SRA o £21,535 ar gyfer 2014/15 ynghyd â chynnydd yr Uwch Reolwyr a Phrif Swyddogion?

(Tudalennau 255 - 256)